# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 18 Chwefror 2020
am 8.00.yh.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Rowland Jones, Caredig Jones, Dewi Rattray, Meiron Davies, Meic Francis, Richard Davies, Meiron Davies**

**ABSENOLDEBAU: Ann Tudor, Dylan Edwards, Ada Evans**

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod miss bach gan y Cadeirydd Rowland Jones.

Dachraeodd y cyfarfod 8.00pm. Darllenwyd cofnodion Mis Ionawr gan y clerc a cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Meic Francis & eiliwyd gan y Cyng Caredig Jones.

20/006 - MATERION YN CODI

1. Nodwyd for ebost wedi eu hanfon i'r Cyngor Sir ynglyn a'r posibilrwydd o cael bin baw cwn wedi eu sefydlu ar top rhiw Cwm Aur.

20/007 - LLYTHYRON

1. Posteri i arddangos wrth Ben Lake, Plaid Cymru
2. Llythr Annual Review Elusen Ambiwlans Awyr Cymru
3. Catalog Play for Wales
4. Llythr wrth GIG Cymru a manylion gwasanaeth tu allan i oriau 2019-2020

20/008 – ARIANNOL

Diweddariad ar agor y cyfrif. Cafwyd ymholiad cychwynnol gyda'r banc ynghylch a pha gyfrif byddai fwyaf addas i'r cyngor ar ôl drafod gweithgareddau'r cyngor cymuned, mathau cyffredinol o daliadau ac ati. Roedden wedi gofyn ar y dechrau ein bod yn agor cyfrif busnes llawn. Cychwynnwyd y cais yma a chwblhawyd y manylion gan y clerc a'r llofnodwyr yn unigol ar-lein. Yna fe waeth cynrychiolydd gwahanol anghytuno a'r penderfyniad yma, a dweud mai cyfrif 'dielw' cymunedol (fel y cawsom o'r blaen!) oedd angen. Unwaith eto, mae'r broses ymgeisio ar y gweill ac mae angen yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y clerc a llofnodwyr gwblhau unwaith eto, trwy gais ar-lein unigol fel o'r blaen. Gofynnodd y Clerc i'r llofnodwyr gwblhau'r broses yma eto fel mater brys er mwyn cwblhau'r cais. Cytunodd llofnodwyr i'w cwblhau.

Derbynwyd y ceisiai ariannol yma'r mis Chwefror;

1. Cais am cymorth Ariannol with y Ddolen. Roedd y cynhorwyr yn gytun hoffwn helpu eleni eto, ac awgrymwyd swm o £100. Cynnigwyd gan y Cyng. Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meic Francis.
2. Cais am cymorth Ariannol with Clwb Pel Droed Llanilar. Roedd y cynhorwyr yn gytun hoffwn helpu eleni eto. Ar ol edrych dros swm cyfraniad ariannol 2019 ar gyfer Clwb Pel Droed Llanilar, penderfynnwyd rhoi rhodd o £300. Cynnigwyd gan y Cyng.Richard Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Caredig Jones. Fe wnaeth y Cyng.Dewi Rattray datgan diddordeb.
3. Cyflog y clerc ar gyfer Miss Chwefror, sef £133.26; cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.Dewi Rattray ac eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies.

   Bydd y taliadau yma yn cael ei brosesu unwaith y bydd y cyfrif newydd yn weithredol.

4. Precept 2020-2012. Ar ol edrych dros 'expenditure' y flwyddyn diwethaf ac trafod pethau sydd ar y gweill ar hyn o'r bryd, penderfynnwyd ar swm o £7,400 eleni eto. Cynnigwyd gan y Cyng.Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies. Roedd pawb yn gytun.

20/009 – CYNLLUNIO

Cais wedi eu dderbyn; A200024
Ymgeisydd: John Houghton
Safle: Tyuchaf. Llanilar, Aberystwyth
Y Bwriad: Demolition of the existing rear extensions and erection of a new extension

Penderfynnwyd cefnogi'r cais yma. Cynnigwyd gan y Cyng.John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies.

20/010 - UNRHYW FATER ARALL

1. Cais am fwy o blismona yn y pentref oherwydd cyflymder cyflym parhaus trwy'r pentref. Offynnwyd i'r clerc cysylltu ynglyn a hyn.
2. Nodwyd difrod i'r cleddyf ar War Memorial y pentref. Fe fydd y Cyng.Rowland Jones yn delio gyda hyn.
3. Mae Arwydd ffordd wrth ymyl bont Coedllys angen troi. Ofynnwyd I'r Clerc cysylltu a'r cyngor sir ynglyn a hyn.
4. Llinellau ar bont Traswcoed; Mae'r Cyng.Meirion Davies wrthi'n trefnu cyfarfod safle. Nodwyd y Cyng.Caredig Jones fod yn hapus i mynychu. Fydd y Cyng.Meirion Davies yn rhoi gwbod I'r Cyng Ann Tudor.
5. Safle Bws wrth ymyl Canolfan Iechyd y Pentref….pam mae e na? Ofynnwyd os oedd unrhwy posibilrwydd symud y lloches yma i fan arall yn y pentref? Ofynnwyd I'r clerc edrych I mewn at hyn yn bellach.

Orffennwyd y gyfarfod am 8.45pm